# Hysbysiad Preifatrwydd CBSC – ECO 4

This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Rheolwr Data ac wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<br><br>https://ico.org.uk/ESDWebPages/Entry/Z4738791 |
| **Y Gwasanaeth fydd yn prosesu (defnyddio) eich data personol yw:** | *Datrysiadau Tai Conwy a'r Tîm Gweinyddol Corfforaethol.* |
| **Y rheswm (pwrpas) pam mae'n angenrheidiol prosesu eich data personol yw:** | *Fel rhan o gynllun ECO4, mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu fel swyddogaeth weinyddol ar gyfer Ofgem a chyflenwyr ynni trwy wirio cymhwysedd deiliaid tai sy'n dymuno hawlio cyllid ar gyfer gwelliannau i'r cartref er mwyn cynyddu eu sgôr band Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP). Bydd CBSC yn rhoi datganiadau i'r gosodwr i hawlio'r cyllid hwn, ar ôl gwirio data a gyflwynir yn erbyn y Datganiad o Fwriad.* |
| **Y data personol a gaiff ei gasglu a'i brosesu yw:** | *Enghreifftiau o dystiolaeth a data a gaiff eu casglu/storio, ar gyfer y pedwar llwybr cymhwysedd yw:*<br><br>- *Enwau/cyfeiriadau/rhifau ffôn/cyfeiriadau e-bost (gyda thystiolaeth ar ffurf prawf adnabod â llun a biliau cyfleustodau/Treth y Cyngor)*<br>- *Gwybodaeth am incwm (gyda thystiolaeth ar ffurf datganiadau banc, P45 ac ati)*<br>- *Gwybodaeth am fudd-daliadau (gyda thystiolaeth trwy lythyrau)*<br>- *Perchnogaeth eiddo (gyda thystiolaeth trwy'r Gofrestrfa Tir neu weithredoedd eiddo)*<br>- *Cyflyrau iechyd (gyda thystiolaeth trwy dempled penodol i'w lenwi gan Fyrddau Iechyd/Meddygon Teulu)* |
| **Y sylfaen gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw:**<br><br>(gweler Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu \| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) | *Erthygl 6 (1)(e) Tasg gyhoeddus: mae angen y prosesu er mwyn i ni allu cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol glir.* |
| **Manylion unrhyw ddata categori arbennig a gasglwyd ac a broseswyd (os o gwbl):** | *Yn achos Llwybr 3, ceisir tystiolaeth am gyflwr iechyd cymwys (h.y. cardiofasgwlaidd, anadlol, imiwnoataliedig neu sy'n ymwneud â symudedd) trwy dempled a ddarperir gan Ofgem i'w lenwi gan y Bwrdd Iechyd/Meddyg Teulu.* |
| **Y sylfaen gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data categori arbennig yw:**<br><br>(gweler Data categori arbennig \| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) | *Erthygl 9 (2)(g) Budd sylweddol i'r cyhoedd.*<br>*(Amodau perthnasol Deddf Diogelu Data 2018 yw – Atodlen 1 Rhan 2: Cefnogaeth i unigolion ag anabledd neu gyflwr meddygol penodol).* |
| **Sut/lle caiff eich data ei storio:** | *Yn fewnol trwy yriannau S: a K: CBSC, a chaiff ei storio ar feddalwedd APP hefyd er mwyn galluogi cwblhau rhestr wirio.* |

| | |
|---|---|
| **Am ba mor hir caiff eich data ei gadw:** | *Yn unol â gofynion archwilio Ofgem, mae ALl yn gyfrifol am gasglu a chadw tystiolaeth ddigonol am hyd at dair blynedd ar ôl Penderfyniad Terfynol ECO4 (31 Mawrth 2026).* |
| **Gyda phwy y bydd eich data yn cael ei rannu:** | *Yn unol â gofynion archwilio Ofgem, mae'n bosibl y bydd Ofgem eu hunain a'r cyflenwyr ynni perthnasol yn y cynllun yn gofyn am wybodaeth i wirio cymhwysedd ymhellach.* |
| **Eich hawliau data:** | Yn ôl y gyfraith mae gennych amrywiaeth o hawliau dros eich data personol sy'n cynnwys:<br><br>• yr hawl i gael gwybod<br>• yr hawl i gael gweld y data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch chi<br>• yr hawl i gywiro unrhyw wallau yn y data personol sydd gennym amdanoch<br>• yr hawl i gael dileu eich data personol pan nad oes ei angen mwyach<br>• yr hawl, mewn amgylchiadau cyfyngedig, i gyfyngu ar sut y defnyddir eich data personol<br>• yr hawl i wrthwynebu i'r defnydd o'ch data personol.<br><br>Yn yr amgylchiadau prin ble rydym yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol, gallwch dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg.<br><br>Gweler Hysbysiad Preifatrwydd Llawn CBSC hefyd:<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **Unrhyw wybodaeth berthnasol arall (os yw'n ofynnol)** | *Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o hawliadau cymhwysedd wedi'u ffugio, cynhelir gwiriadau archwilio ychwanegol ar amrywiaeth o geisiadau ar hap. Byddai'r gwiriadau archwilio hyn yn cynnwys gwirio cofnodion y Gofrestrfa Tir a galwadau gwirio lle bo'n berthnasol.*<br><br>Hysbysiad preifatrwydd ECO \| Ofgem |
| **Cyswllt gwasanaeth** | *ECO Flex*<br>*ecoflex@conwy.gov.uk* |
| **Uned Llywodraethu Gwybodaeth** | Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am sut y defnyddir eich data personol neu os ydych yn dymuno arfer unrhyw un o'ch hawliau y cyfeirir atynt uchod, cysylltwch â:<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Uned Llywodraethu Gwybodaeth<br>Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN<br>uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk<br>01492 577215<br><br>Os ydych yn credu nad ydym wedi llwyddo i drin a rheoli eich data personol yn briodol mae gennych hawl i apelio i:<br><br>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru, 2il Lawr<br>Churchill House |

| | |
|---|---|
| | Ffordd Churchill<br>Caerdydd<br>CF10 2HH<br>E-bost: wales@ico.org.uk |